**Senedd Cymru**
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Ymchwiliad:** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
**Ymateb gan:** Mudiad Meithrin

-

**Welsh Parliament**
**Equality and Social Justice Committee**
**Inquiry:** Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015
**Evidence from:** Mudiad Meithrin

**Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

**Ymgynghoriad: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Gwaith craffu ar ôl deddfu**

**Enw Cyswllt:** Angharad Morgan

**Rôl:** Rheolwr Polisi

**Sefydliad**: Mudiad Meithrin

**E-bost:** [redacted]

**Cefndir Mudiad Meithrin**

Mae Mudiad Meithrin yn gymdeithas wirfoddol genedlaethol o Gylchoedd Meithrin, cylchoedd Ti a Fi, gofal cofleidiol a meithrinfeydd dydd Cymraeg. Ein nod yw creu siaradwyr Cymraeg newydd, ymgyrchu dros ofal ac addysg Gymraeg i bob plentyn, cefnogi ein haelodau a chynllunio'n strategol i ddatblygu gwasanaethau newydd.

Ers 1971 rydym wedi tyfu'n aruthrol. Erbyn heddiw mae tua 1000 o Gylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi, grwpiau 'Cymraeg i Blant', sesiynau 'Clwb Cwtsh' a Meithrinfeydd dan faner y Mudiad Meithrin sydd yn darparu profiadau blynyddoedd cynnar i tua 22,000 o blant bob wythnos. Ein nod yn gyffredinol a thrwy gynllun 'Sefydlu a Symud' yw cynyddu niferoedd y lleoliadau sy'n darparu gwasanaethau gofal plant, addysg feithrin a gofal cofleidiol i blant ifanc ac i ehangu gwasanaethau mewn lleoliadau sydd eisoes yn bodoli (er mwyn osgoi disodli darpariaeth hanesyddol a sefydlog Gymraeg).

Rydyn ni wedi cymhwyso dros 4,500 o unigolion yn uniongyrchol i'n gweithlu cyfrwng Cymraeg gyda chymwysterau Gofal Plant, a hynny drwy ein Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol a'r Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam. Mae'r Mudiad yn ganolfan wedi ei hachredu a'i hadnabod gan Agored Cymru, WJEC a City and Guilds yn ogystal â CACHE ar gyfer darparu yr ystod lawn o gymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant ôl-14

ac ôl-16 ynghyd â darparu cyrsiau Lefel 5 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Arwain a Rheoli. Mae gan y Mudiad statws hawlio uniongyrchol ar gyfer nifer o'r cyrsiau hyn yn dilyn gwiriadau ansawdd allanol arbennig o uchel.

Hefyd, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni er mwyn darparu cymorth a chyngor i'w galluogi i ddatblygu a chefnogi gwaith y cylchoedd yn y cartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant neu ddechrau dysgu Cymraeg. Rydym yn elusen gofrestredig sy'n cyflogi dros 200 o bobl yn genedlaethol, gyda 2000 ychwanegol yn gweithio yn y Cylchoedd a'r meithrinfeydd ac oddeutu 1500 yn gwirfoddoli ar bwyllgorau rheoli gwirfoddol. Cefnogir y cylchoedd gan rwydwaith cenedlaethol o staff proffesiynol sy'n eu cynghori ar amrediad o faterion er enghraifft cefnogaeth fusnes, cymwysterau a recriwtio staff, hybu arfer da, hyfforddiant staff a chyd-weithio ag Awdurdodau Lleol.

**Ymateb Mudiad Meithrin**

1. Mae *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* yn un o'r 7 nod llesiant cenedlaethol, gyda nifer y bobl a all siarad Cymraeg yn un o'r dangosyddion cenedlaethol - ac wedi ei nodi yn garreg filltir allweddol. Gan hefyd ystyried y strategaeth 'Cymraeg 2050', daliwn y dylai cynnal y Gymraeg yn ein cymunedau fod yn un o'r nodau strategol ac yn egwyddor ganolog i unrhyw gynlluniau newydd a argymhellir.
2. Er mwyn gwireddu amcanion Llywodraeth Cymru, rhaid sicrhau dangos arwyddocâd y Gymraeg i fywyd beunyddiol, pam fod ei hadfer yn bwysig ac yn gyffrous i bawb, a pham fod meddu ar a medru'r Gymraeg yn fanteisiol i bob unigolyn a chymuned.
3. Rhaid sicrhau bod cynllunio ieithyddol o fewn ac ar gyfer ein cymunedau Cymraeg yn digwydd mewn modd integredig, yn gyfannol, yn gyd-gydgysylltiol, fel bod pob agwedd yn atgyfnerthu'i gilydd.

4. Amlygodd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yr angen i weithredu’n bwrpasol er mwyn cynyddu’r niferoedd sydd yn medru siarad Cymraeg ar draws Cymru, a bod gan y system addysg a’r sector gofal ac addysg blynyddoedd cynnar rôl annatod i’w chwarae wrth symud tuag at y nod hwn.
5. Er ein bod yn cydnabod rôl bwysig addysg statudol cyfrwng Cymraeg i hyfywedd cymunedau Cymraeg, nodwn bwysigrwydd cyd-weithio gyda Mudiad Meithrin a mudiadau eraill Cwlwm er mwyn cynllunio i sicrhau darparu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, o fewn cyrraedd hwylus i bob cymuned yng Nghymru, i wireddu’r nod o greu a chynyddu’r galw am addysg statudol cyfrwng Cymraeg yn ein holl gymunedau.
6. Mae dadansoddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg o Gyfrifiad 2021 yn codi pryderon nad yw’r duedd isymwybodol o ran trosglwyddo rhyng-genedlaethol yn gwbl gyffredin bellach, hyd yn oed yn yr ardaloedd sydd â’r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg.
7. Yng nghyfrifiad 2021, gwelwyd cwymp yn y gyfradd trosglwyddo’r Gymraeg ymhlith cartrefi cwpwl, lle'r oedd un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, o 45.4% yn 2011 i 40.4% yn 2021. Roedd cyfraddau trosglwyddo’r Gymraeg yn y cartref mewn aelwydydd cwpl lle mai ond un partner sy’n siarad Cymraeg yn uwch pan mai’r fenyw oedd yn siarad Cymraeg. Er hynny, roedd y ganran o’r teuluoedd hyn oedd yn trosglwyddo’r Gymraeg ar yr aelwyd yn llai na 50%. Mae’r cyfraddau trosglwyddo ar gyfer aelwydydd un rhiant (gwryw neu benyw) yr yn fath (53%).
8. Rhaid hefyd ystyried bod yna waith ymchwil sydd yn awgrymu mai iaith y fam yw’r rhagfynegydd orau o ddatblygiad ieithyddol y plentyn. Mae data’r cyfrifiad (diwethaf) yn cefnogi hyn, ac yn dangos bod y tebygolrwydd o fewn teuluoedd cymysg eu hiaith drosglwyddo’r Gymraeg i’r genhedlaeth nesaf 10% yn uwch mewn teuluoedd ble’r fam sy’n siarad Cymraeg. Mae angen ystyried ymyraethau pwrpasol i weithio gyda thadau sy’n medru’r Gymraeg mewn teuluoedd cymysg eu hiaith.

9. Mae angen i ni dalu mwy o sylw i effaith ac arwyddocâd rhywedd trwy'r camau gweithredu i gyd yn fuddiol. Rhaid hefyd ystyried mewn teuluoedd ble mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg fod 20% o'r rheini hynny, am ba bynnag rheswm, yn penderfynu peidio siarad Cymraeg gyda'i phlant. Wrth drafod ymdrechion i ddwyn perswâd, ac i ddylanwadu ar bobl mae targedu priodol yn hollbwysig, ac mae angen ystyried oedran, cefndir ethnig, crefydd, a rhywedd wrth wneud hyn.
10. Noda adroddiad diweddar y Comisiwn Cymunedau Cymraeg[1] (Gorffennaf 2024) mai dim ond mewn ychydig o gymunedau y byddai modd i blant o aelwydydd ble na siaredir y Gymraeg godi'r Gymraeg heb gefnogaeth y gyfundrefn addysg.
11. Mae addysg a gofal yn feysydd polisi sydd â'r gallu nid yn unig i warchod a hyrwyddo rhwydweithiau Cymraeg presennol cymunedau ond hefyd i greu siaradwyr Cymraeg newydd, gwaith sy'n hanfodol bwysig er mwyn cynnal a chyfnerthu cymunedau Cymraeg y dyfodol. I'r perwyl hyn, mae'r plant sydd heb ddechrau yn yr ysgol eto yn hanfodol o safbwynt cymdeithasoli defnydd o'r Gymraeg. Mae potensial i ddarparu mwy o weithgareddau cymdeithasol Cymraeg i feithrin, datblygu a chynnal yr arfer o siarad Cymraeg gyda'r plant lleiaf, ac i gefnogi defnydd y Gymraeg o fewn rhwydweithiau cymdeithasol rhieni, rhieni-cu a gwarchodwyr.
12. Prif nod rhaglen Cymraeg i Blant yw cynyddu nifer y plant mewn addysg a gofal cyfrwng Cymraeg. Amcanion y rhaglen yw cefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant yn gymdeithasol ac yn addysgiadol. Gwneir hyn trwy raglen amrywiol o grwpiau babi yn cynnwys tylino babi, ioga babi, sesiynau stori, arwyddo a chân a sesiynau Fi a Fy Mabi sydd yn benodol ar gyfer rhieni yn y cyfnod cyn-geni.
13. Mae'r grwpiau Cymraeg i Blant yn chwarae rhan allweddol drwy gefnogi rhieni i siarad Cymraeg a dewis addysg Gymraeg a hefyd yn cefnogi iechyd a lles rhieni newydd. Mae'r grwpiau yn addas ar gyfer teuluoedd o'r cyfnod cyn-geni hyd at pan fydd y plentyn tua 18 mis oed. Wedi hynny anogir y teuluoedd i fynychu'r Ti a Fi lleol,

wedyn ymlaen i'r Cylch Meithrin ac yna addysg Gymraeg. Felly mae'r daith iaith yn eglur i'r rhieni o'r cychwyn cyntaf.

14. Mae Mudiad Meithrin yn cefnogi rhwydwaith o Gylchoedd Ti a Fi, gyda rhai yn cael eu harwain gan arweinyddion gwirfoddol, ac eraill gan Swyddogion Ti a Fi cyflogedig. Mae'r grwpiau hyn yn cynnig cyfle wythnosol i deuluoedd dod ynghyd yn eu cymuned leol i rannu profiadau, meithrin cysylltiadau ac i ddatblygu rhwydweithiau cefnogaeth emosiynol ac ymarferol. Maent yn cynnig mannau diogel i gwrdd, yn cryfhau cysylltiadau cymunedol ac yn lleihau'r teimlad o unigedd sydd mor aml yn cael ei deimlo gan deuluoedd â phlant ifanc. Hyn holl tra hefyd yn cyflwyno ac yn annog defnydd y Gymraeg yn y gymuned.
15. Mae toriadau ariannol yn effeithio arnom i gyd, ac rydym yn gweld awdurdodau lleol yn gorfod blaenoriaethu gwasanaethau statudol o fewn eu cyllidebau presennol. Mae hyn wedi arwain at leihad yn y cyllid sydd ar gael i gyflogi swyddogion arbenigol i weithio gyda Chylchoedd Ti a Fi. Er mwyn parhau i gynnig y profiadau lleol gwerthfawr hyn, mae angen buddsoddiad hirdymor i sicrhau trefnydd cyflogedig ar gyfer y Cylchoedd Ti a Fi.
16. Gwelwn y toriadau cyfredol hefyd yn effeithio ar ddarpariaeth y rhaglen trochi iaith Croesi'r Bont (sydd yn cynnig fframwaith drochi i leoliadau blynyddoedd cynnar ar draws Cymru gan bontio â'r ysgolion sydd yn bwydo'r Cylch) a'i gynlluniau perthnasol (Camfa a Clebran) sy'n trochi ymarferwyr i fedru gweithio yn y Gymraeg, yn ogystal â chodi hyder ieithyddol siaradwyr Cymraeg sydd yn gweithio yn y blynyddoedd cynnar.
17. Mae recriwtio unigolion i wirfoddoli fel aelodau Pwyllgor Rheoli Gwirfoddol y cylchoedd yn gallu bod yn heriol o ganlyniad i'r pwysau sydd ar yr unigolion fel cyflogwr staff y cylch yn ogystal â gofynion rheoleiddiol eraill. Rydym yn cyd-weithio gyda grŵp o wirfoddolwyr o blith pwyllgorau rheoli gwirfoddol i ddechrau ar y gwaith o adolygu'r model hyn. Rhaid nodi y bydd newid o fodel rheoli gwirfoddol yn golygu

costau ychwanegol i bob lleoliad, ac felly yn gofyn am fwy o fuddsoddiad ariannol yn y blynyddoedd cynnar.

18. Mae diffyg ymwybyddiaeth o le mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn rhwystr i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Awgrymir fod hyrwyddo'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg, yn ogystal â'r ffaith fod croeso i'w ddefnyddio yn ffordd o ddatrys y rhwystr yma.
19. Mae prinder amser yn rhwystr mawr i unigolion sydd â diddordeb dysgu Cymraeg, felly bysai cyflwyno gwersi Cymraeg yn y gweithle fel rhan o gynllun dysgu proffesiynol yn fuddiol iawn i gynyddu defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn cymunedau.
20. Nodwn yr angen i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg mewn nifer o feysydd a gwasanaethau arbenigol sydd yn rhan o fywyd teuluoedd ifanc, gan gynnwys bydwragedd, ymwelwyr iechyd ac amryw o weithwyr proffesiynol eraill. Rhaid hefyd sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn elfen graidd o ddatblygiad proffesiynol gweithwyr ar draws y sectorau sydd yn rhan o fywyd teuluoedd ifanc er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb yn y negeseuon sydd yn cael eu rhoi am fanteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.
21. Mae angen parhau i gyd-weithio gydag arbenigwyr ym maes theori pwtio a newid ymddygiad, gan ddysgu o'r gwaith sydd eisoes wedi ei wneud ym maes iechyd, yn ffordd o gynyddu ewyllys da tuag at y Gymraeg a'i normaleiddio ymhellach. Mae angen datblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n dylanwadu ar agweddau a dewisiadau ieithyddol unigolion. Mae gwaith diweddar Yr Athro Bernadette O'Rourke ar fapio defnydd iaith mewn dinasoedd amlieithog yn cynnig ffordd wrthrychol o fapio defnydd ieithoedd dinasyddion amlieithog yn eu bywydau pob dydd.
22. Dros dymor y Senedd hon, bydd angen i ni agor o'r newydd neu ehangu 50+ Cylch Meithrin (a Chylchoedd Ti a Fi ble nad oes rhai eisoes) gan barhau i gefnogi pob Cylch Meithrin i aros ar agor fel adnoddau cymunedol pwysig gan hefyd nodi'r angen

am gronfeydd cyfalaf mawr i dalu am estyniadau ac addasiadau gan fydd darganfod lleoliadau addas yn heriol.

23. Mae nifer o gynlluniau llwyddiannus hanesyddol gall eu gweithredu o'r newydd o'u ddiweddaru ychydig. Cyfeiriwn yn benodol at gynlluniau megis '*Kids Soak it Up*', '*Mae dy Gymraeg di'n* Grêt' a '*Cymraeg o'r Crud*'. Byddai darparu a gweithredu'r cynlluniau hyn (gyda'r buddsoddiad ariannol angenrheidiol) unwaith eto yn cefnogi ac yn cynyddu trosglwyddiad y Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn cynnig ffordd o drafod manteision y Gymraeg, dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn gyffredinol ac addysg Gymraeg yn benodol gyda'r teuluoedd sydd yn mynychu'r sesiynau.
24. I'r perwyl hwn, mae Mudiad Meithrin yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddyfnhau gweithgarwch ym maes trosglwyddo iaith gan gefnogi rhieni a'r teulu estynedig trwy amryfal raglenni a grwpiau fel Cylchoedd Ti a Fi, 'Cymraeg i Blant', 'Clwb Cwtsh' a 'Cymraeg yn y Cartref'. Gweithgareddau fydd ond yn bosib o dderbyn cyllideb ychwanegol ar gyfer ymestyn a chynyddu'r gwasanaethau sydd eisoes yn cael eu darparu.
25. Rydym yn gosod tri maes blaenoriaeth yn ein maniffesto ar gyfer Etholiad Cyffredinol Cymru 2026: (i)Sicrhau darpariaeth gofal ac addysg gynnar o ansawdd gyda chyllid teg; (ii) Codi hyder, gwybodaeth a sgiliau o fewn y gweithlu blynyddoedd cynnar, y corff gwirfoddolwyr a rhieni/gofalwyr; (iii) Cynllunio darpariaeth gofal plant ac addysg gynnar sy'n cefnogi amcanion Bil y Gymraeg ac Addysg gan gyfrannu at greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
26. Mae angen datblygu a buddsoddi mewn cynlluniau sydd yn cefnogi cymunedau i gyd-weithio yn y tymor hir, yn hytrach nag ar brosiectau 'tasg-a-gorffen' yn unig. Mae angen adeiladu a chefnogi cymunedau i fuddsoddi amser i ddatblygu clybiau a mentrau cymunedol er budd eu cymunedau. Mae Cylchoedd Meithrin a Cylchoedd Ti a Fi yn enghreifftiau o asedau cymunedol sydd yn angenrheidiol i alluogi cymunedau i ffynnu, gan gynnig cyfleoedd i blant a'u teuluoedd i ddod at ei gilydd ac

adeiladu rhwydweithiau cefnogaeth naturiol yn eu milltir sgwâr, a hynny yn y Gymraeg.